YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirioniedd · Cariad

Cynnwys

Rhifyn Dathlu Penblwydd
Y Parch. DAVID EVANS
yn 90.

Atgofion o'r Dyddiau Gynt.



Cyf. L | Mawrth, 1950 | Rhif 3

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen; D. Evans; E. G. Evans, B.A.; E. O. Jenkins; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; Islwyn Pritchard, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; Lewis Williams; T. O. Williams, M.A.; a'r Dr. D. J. Davies, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol l. MAWRTH, 1950. Rhif 3.

Nodiadau'r Golygydd.

Cwmwrdu.

Derbyniais lythyr y mis hwn oddi wrth gyfaill o gyffiniau Cwmwrdu. "*Blinder llygad i mi yw edrych ar y trychineb sydd wedi goddiweddyd hen gapel Cwmwrdu. Mae'r cyfan yn anialwch o gylch y lle—a neb yn edrych ar faen na bedd . . .*" Yr oedd llawer rhagor, ond dyna ddigon. Y mae gwraig bedwar ugain oed yn fy nghapel yn cofio cael te parti yng nghapel Cwmgwrach—ychydig o gerrig sydd yno heddiw. Y mae un wal yn rhoi ym Mhanteg.

'Drain ac ysgall mall a'u medd
Mieri lle bu mawredd.'

Militariaeth.

Y mae Mr. Le Cronier Chapman o Blas Galltyrodyn i'w longyfarch am droi stad Galltyrodyn yn noddfa i gwningod ac anifeiliaid gwyllt. Y mae pwyllgor addysg sir Aberteifi i'w longyfarch am ofalu bod ysgolion y sir yn parhau yn noddfa i'n plant rhag gwŷr fel Mr. Chapman sy'n ceisio mynd iddynt i bregethu gogoniant militariaeth. Byd rhyfedd yw hwn lle mae mwy o werth ar gwningen na dyn. Y mae'n hen stori, "*Y mae gan lwynogod eu ffeuau ond nid oes gan fab y dyn le i roi ei ben i lawr.*"

Yr Ymofynnydd.

Y mae'r Ymofynnydd ar i fyny. Er gwaethaf colledion trwm trwy farwolaeth yr oedd 14 o ddarllenwyr yn fwy yn yr eglwysi ar ddechrau 1950 nac oedd yn 1949. Yn ystod y mis derbyniwyd cais am godi erthyglau ohono i ddau gylchgrawn arall, *Yr Haul* a *Seren Cymru*. Dyma a ddywed *Y Faner* am Ionawr 25, 1950: "*A sôn am ffraethineb, mae ysgrifau 'Gwalch Ogwr' yn* Yr Ymofynnydd *yn llawn ohono a gallai golygydd 'Y Crynhoad' gael porfa dda yn yr ysgrifau hyn.*"

Taith i'r Gorffennol—via Ferndale.

Gan Y Golygydd.

Wedi gweld Gwalch Ogwr yn cael y fath hwyl arni o fis i fis a phapurau'r wlad yn canu ei glodydd, daeth awydd arnaf innau i fwrw am dro i weld un o gewri'r enwad. Penderfynaswn eisoes i roi'r lle anrhydedd i'r Hybarch David Evans yn y rhifyn hwn ac o fynd ati cystal mynd ati'n iawn a chael cwmni iddo—crwt arall, heb gyrraedd ei bedwar ugain a deg, ond yn sodlo'n dynn o fewn dwy flynedd.

Felly ar ôl cinio cynnar dydd Gwener, Chwefror y 10fed, cychwynais am Ferndale i weld Inspector Thomas neu 'Glan Glowon' fel ei adweinir gan ddarllenwyr Yr Ymofynnydd. Nodaf y dyddiad uchod yn fanwl gan fy mod am gofio hwn fel y diwrnod garwaf a welais erioed. Yr oedd y gwynt yn chwipio'r glaw yn gerrynt ar ôl cerrynt lawr drwy'r cwm. Ond yr oedd rhaid mynd wedi penderfynu ac i mewn â mi i'r bws sy'n cychwyn wrth gerflun Caradog, arweinydd y Côr Mawr. A chyn hir dyma gychwyn dros y mynydd tua'r Rhondda Fach. Yn ddiamau, un o siwrneion mwyaf rhamantus Cymru yw hon, oblegid mae'r ffordd yn gwau i fyny igam-ogam hyd lethrau'r mynydd uchel sydd a'i ochrau yn codi bron yn syth. Pan gyrhaeddwyd y drum gwelwn Aberdâr oddi tanom drwy gwrlid gwyllt o law. Gallem dybio mai tref ar waelod llyn ydoedd a'n bod ninnau yn syllu arni dros y dibyn i'r gwaelodion obry. Anedlais eto wedi cyrraedd pen y mynydd a diolchais yn ddistaw bach i bob sgriw o'r bws am ddal ei gafael yn dynn. Bellach nid oedd dim ond gwastatir eang i'w weld am filltiroedd, heb dŷ na thwlc.

'Ni welir arno lun na chynllun chwaith
Dim ond amlinell lom y moelni maith.'

Sylweddolais mai cam mewn gwirionedd yw galw'r parthau yma *The South Wales Valleys*—gwlad y mynyddoedd yw hon.

Aethom i lawr y ffordd droellog yr ochr arall eto (gan gofio'r sgriws bach bob un!) a chyflymu tua'r clwstwr tai a thwmpathau a elwir Maerdy, a chyn hir iawn glanio yn Ferndale. Wedi dod allan o'r bws, peidiodd y glaw am ennyd ac fe ysgubodd rhyw hanner heulwen drwy'r cwm o flaen y gwynt. Byth ni anghofiaf yr olygfa honno a wibiodd o flaen fy llygaid. Safwn ar lethr gan edrych dros ben y rhesi tai sy'n hongian fel rhaffau o wynwns ar ymylon serth y dyffryn, a gwelais yr hacrwch moel ar ei newid wedd. Yr oedd y llifogydd yn pistyllo i lawr dros yr ochrau serth fel rhubanau gwyn ac ar y drum uchaf gwelais ryfeddod na welais mohono erioed o'r blaen. Yr oedd tua deuddeg o ffrydiau gwyn mawr yn tywallt i lawr at y dibyn o ben y mynydd ond yn lle

disgyn drosodd yn rhaeadr fel arfer, codai pob un ohonynt yn syth i fyny i'r awyr fel mwng ceffyl ar garlam. Codent am droedfeddi lawer gan chwalu'n drochion gwyn o'r diwedd ac ail ddisgyn ar chwâl fel tarth dros y lle. Gwyddwn y foment honno pan anghofiais y rwbel du a'r staciau paham y galwodd Richard Llewellyn ei lyfr yn *How Green was My Valley*.

Ond at fy ngwaith, neu yn hytrach fy mhleser (ac onid pleser a ddylai pob gwaith fod). Cnociais ar ddrws 4, Fir Street a chyhoeddodd yr hawddgar Mrs. Thomas wrth ei phriod fod *dyn o Aberdâr* wedi galw (dyna wyf bellach mae'n debyg). Gadawyd ni'n dau yn llonydd yn ystafell yr Inspector, sydd gwaetha'r modd wedi bod yn gell gaeth iddo ers dros naw mlynedd.

"Ffordd ddaethoch chi'n groes, dros y mynydd?"

"Ie."

" 'Rwy'n cofio cerdded lawer gwaith dros y mynydd yna cyn bod hewl—dim ond llwybyr garw oedd. Yr oedd yn rhan o'm gwaith fel plisman i atal y *prize fights* gwaedlyd a drefnid ar y mynydd yn aml drigain mlynedd yn ôl. Byddwn yn mynd i Highland Place a'r Hen Dŷ Cwrdd hefyd, 'rown i'n dipyn o ffrindiau â'r hen R.J.J. Dro arall fe fyddwn yn mynd i Glydach ac i'r Pentre. Fachgen 'rwy'n cofio peth na welais i na chynt na chwedyn yn digwydd yng nghapel bach y Pentre. 'Does dim blynydde mawr oddiar hynny."

"Beth ddigwyddodd?" meddwn i.

"Ichi'n gweld, 'roedd hi'n brynhawn Sul poeth iawn yn yr haf a'r gwres yn llethol. Stiwdent oedd wrthi 'co (gŵr parchus iawn erbyn hyn), ac wedi gorffen y gwasanaeth dyma fe'n tynnu'i got lawr cyn dechrau pregethu. Dyna'r unig dro i fi weld pregethwr yn tynnu'i got lawr yn y pulpud a meddwn i wrth gyfaill ar ôl y cwrdd, ' yr oedd y bregeth yna yn werth tynnu cot lawr i'w thraddodi hefyd.' ' Ie,' meddai hwnnw, ' ond meddylia shwt y bysai arno ni ta fe wedi tynnu wasgod lawr!' "

Chwarddom yn iachus ein dau gan gytuno y gwnai les i lawer ohonom dynnu'r got yn aml.

Cawsom air neu ddau am y lecsiwn wedyn a'r ddau ohonom yn stablan ychydig bach i geisio gwybod beth oedd lliw'r llall. A meddai'r Inspector yn y diwedd, "Nid oes eisiau i ni gelu'n lliw fwy na'n crefydd. 'Rwy'n falch bob amser i ddweud wrth bawb mai Undodwr ydwyf. 'Drychwch ar Natur, y mae lle i bob lliw fan honno ; nid yw'r lili wen yn dannod ei liw i'r blodyn coch. Y mae lle i wahanol liwiau i fyw'n gytûn mewn gwleidyddiaeth a chrefydd hefyd."

Yna gofynnodd, "Shwt mae pethau lawr yn Nhalgarreg,—

' Ni weli di drwy Walia deg,
Le i guro Talgarreg.'

'Rwy'n cofio cerdded o'r Cwarre i'r Bwlch yn ifanc iawn. A dyma chi beth rhyfedd 'nawr, nid ymffrostio wyf cofiwch, ond synnu at y peth—fe brynnodd y Bwlch dir mynwent pan oeddwn yn grwtyn pedair-ar-ddeg oed a gwnawd fi'n un o'r *trustees* arno. Yr oedd pymtheg ohonom i gyd ac 'rwy'n cofio amdanom yn mynd lawr i Landysul mewn gambo gyda'n gilydd i gael ein tyngu i'r swydd o flaen y cyfreithiwr, Jones y Gelli. Fi oedd yr ifanca, a dweud y gwir wyddwn i ddim beth oedd *trustee* pan gefais fy ethol. Gwnawd fi'n arolygwr yr ysgol Sul pan oeddwn yn ddeunaw . . ."

Gadewais iddo ddweud ei stori. " 'Rwy'n cofio'r bore pan ddarllenodd Gwilym Marles y Notis oedd yn gorchymyn cau capel Llwyn yn ei erbyn, yn nhŷ Cwrdd y Bwlch. Cyhoeddodd y byddai cyfarfod yn yr awyr agored yn y Llwyn y prynhawn. Fe es i a 'nhad lawr ac fe bregethodd Gwilym ar y steps. Cofiaf amdano'n son yn ei bregeth fod yna stori am y llew yn mynd yng ngafael â'r oen, a'r oen yn gofyn, ' paham yr wyt ti am fy lladd i, wnes i ddim i ti ! ' ' Do,' meddai'r llew, ' 'rwyt ti wedi trwblu'r dŵr . . .' Yn Gelliaur gawson ni ginio, nhad a fi.

" 'Rwy'n cofio wedyn pan gawd y Capel 'nôl a Capten Massey a'i wraig, 'rwy'n meddwl, yn dod i Landysul gyda'r traen. 'Rwy'n gallu gweld yr injin yn dod rownd i'r tro am stesion Llandysul o flaen yn llygaid 'nawr ac 'roedd y dyrfa'n gweiddi. Fe dynson y ceffylau mas o'u cerbyd a chlymu rhaffau hir wrtho a'r dyrfa yn ei dynnu lan drwy riw Faerdrefach tua'r Llwyn. A dyma beth rhyfedd eto yw'r cof. 'Rwy'n cofio fod John Williams, Llawrcwrt yn cydio yn y rhaff tu ôl i fi ar riw Faerdrefach ac yn gweud, "Wyt ti'n gryf fachan, fyswn i wedi ffaelu os amser oni bai dy fod ti o mlaen i!" Pam yr wyf yn cofio hynna, wn i ddim, a sut mae'n bosib i'r cof i gadw manion fel hyn sy'n ddirgelwch i fi."

"Dyna i mi beth yw gwyrth yng ngwir ystyr y gair," meddwn innau, "gwyrth lawer mwy na throi dŵr yn win a phethau tebyg."

"Ie," aeth rhagddo, "dyna ni'n cyrraedd yr hen Gapel a Chapten Massey yn agor y glwyd unwaith eto. Fe basodd Gwilym Marles lawr ar y pryd mewn cerbyd pedair olwyn, *four-wheeler* ys gwetson ni. Arosodd e ddim a odd golwg wael arno fe. Digon tebyg fod hi'n ormod o faich iddo aros. Ble odd e'n mynd na o ble odd e'n dod, wn i ddim—*ond arosodd e ddim*!"

Distawodd y cwbl yn yr ystafell gyda'r geiriau yna. Caeais fy llygaid, ac fe glywn *clip-clop* pedolau'r ceffyl yn y *four-wheeler* yn dynesu a'r dyrfa'n dawel wrth weld y gŵr llwyd ei wedd a garai gymaint yn mynd heibio'r tro ac yn diflannu o'r golwg. *Arosodd e ddim.*

Dechreuodd yr Inspector eto. " 'Rwy'n cofio," meddai, "am Gwilym Marles yn ei breim yn rhoi emynau allan o lyfr Iolo yn y Bwlch. (Fe fu farw yn 1879, wyddoch chi). Odw, 'rwy'n cofio am yr hen gapel lan a lawr yn llawn, a Gwilym yn dod mewn wedi

cerdded lan o Landysul. Haf oedd hi, ac yr oedd pwnshin o flodau yn ei law wedi eu crynhoi ar y ffordd, ac fe'u rhoddodd 'nhw yn 'i hat ar y ford . . ."

Fe leicwn i fod yn y Bwlch y bore hwnnw pan oedd y pwnshin blodau yn yr hat ar y ford a Gwilym Marles yn pregethu. Ond gan na chefais hynny o fraint diolch am gael clywed y stori.

I barhau.

Taith Arall i'r Gorffennol—via Cribyn.

Gan Y Golygydd.

Ar ôl cael blas ar drampan mae'n anodd bodloni'r blys. Wedi dychwelyd o Ferndale a chael hoe i 'sgrifennu'r hanes yr oedd yn bryd dechrau ar daith arall. Yr oedd edrych dros y dibyn a'r breuddwydio'r noson wedyn am sgriws bach yn datod, datod yn araf wedi penderfynu un peth drosof—ni chymrwn fws y tro hwn. Bwriais y draul mewn cwpons petrol yn ofalus (gan ofer obeithio y cwrddwn a rhywun a chanddo 'fripsyn bach' yn ormod yn sir Aberteifi), ac anelais drwyn yr HMV 889 tua Chribyn. Dyry'r llythrennau H.M.V. dipyn o awdurdod i'r cerbyd a bûm yn dra thueddol i'w egluro fel *His Master's Voice* hyd yn ddiweddar, ie, hyd pan edrychodd cyfaill ar blet yn ei aden a chwff yn y tô, gan awgrymu'n gynnil mai gwell fuasai *Hanner Marw Valle* fel esboniad. Ond i ffwrdd â mi yn galonnog, i'r gorffennol unwaith eto ond y tro hwn *via* Cribyn.

Yr oedd rhestri o geir modur i bob cyfeiriad ar y dair ffordd sy'n cwrdd wrth glwyd Capel Cribyn a llawer ohonynt yn dwyn nodau siroedd pell, a phob un ohonynt wedi dwyn llwyth i dalu teyrnged i'r annwyl, hybarch ŵr, Dafydd Evans. Yr oedd y cwrdd wedi dechrau a seiniau'r emyn cyntaf yn dod i'm cyfarfod ar y llwybr. Arosais wrth y drws hyd ddiwedd yr emyn ac wrth aros daeth atgofion. Y mae'n ddrwg gennyf fod yn bersonol ond yno wrth y drws cofiais y bore cyntaf imi fentro i gyhoeddiad erioed. Dod ar y beic a wnawn a phum tudalen o bregeth yn fy mhoced a llond calon o ofn yn fy mynwes. Pasio gwraig â'r Perlau yn ei llaw gan wybod y byddai'n dyst o'r alanas sicr a oedd i ddigwydd. Euthum drwy'r gwasanaeth, wn i ddim sut, ond gwn i mi gael Cwmni i'm cynnal yn y pulpud canys ni ddywedais air ar goedd erioed cyn y bore hwnnw yng Nghribyn. Er bod rhai ugeiniau o rihyrsals cyn hynny yn dangos y byddai'r cwrdd yn para awr, gorffennais bopeth ymhen pum munud ar hugain. Bu'r bobl yn garedig odiaeth wrthyf ond penderfynais fod rhaid ' mystyn ' tipyn o'r bregeth cyn

y cwrdd prynhawn yng Nghapel-y-groes. Ac yn llety'r annwyl ddiweddar Barch. E. Gruffydd Jones dyblwyd hyd y bregeth mewn amser byr ar ôl cinio. Ond hyn sy'n rhyfedd, er fod y bregeth yn ddwbl yr hyd, pum munud ar hugain cywir barhaodd y gwasanaeth prynhawn fel un y bore. Dywedais hyn oll er mwyn dweud fod Dafydd Evans wedi codi nghalon i ar y diwedd a gwneud i mi deimlo cystal a phregethwr sasiwn. Dyna un o'r amryw resymau pam na'm rhwystrai ddim ar y ddaear rhag dod i'r dathlu yng Nghribyn.



Yr Hybarch David Evans

Tawodd yr emyn ac fe euthum mewn i weld y tŷ cwrdd yn orlawn o ddrws i ddrws. Gweddïodd y Parch. Lewis Williams o gyfoeth ei galon gan ddiolch i'r Bugail Mawr am amryw ddoniau'r bugail mwyn. Ni cheisiaf ddisgrifio'r weddi, gŵyr pawb am ddefosiwn a dawn y gŵr o Rydygwin. Mr. E. O. Jenkins (sydd yn dymuno colli ei *Barch* ac yn cyhoeddi fod yn gas ganddo yr enw Parchedig), a oedd yn llywydd a galwodd yn gyntaf oll ar Islywydd y Gymdeithas Gymraeg, Mrs. H. Park Davies, Y.H. i ddweud gair. Mewn geiriau dethol, dwys, mynegodd werthfawrogiad mudiad cyfan o ffordd urddasol a chymeriad hardd Mr.

Evans. Meddai wrth orffen, "Yr ydych, yng ngeiriau Hedd Wyn, wedi byw,

'Oes dawel y gwas diwyd,'

yn drylwyr drwy eich bywyd; oes bur naturiol hyd henaint. Dymunwn am estyniad oes i chwi i weld llawer penblwydd yn rhagor. Gwyn eich byd, 'Yn weithiwr nad rhaid iddo gywilyddio.'"

Dilynodd y Parch. T. O. Williams, M.A. a chyhoeddodd ei bod yn ddrwg ganddo gyhoeddi na fedrai'r Athro Timothy Lewis, M.A., un o'r gwŷr gwadd, fod yn bresennol oherwydd afiechyd. Talodd deyrnged i ysgolheictod Mr. Lewis a thaerodd y doi Cymru i weld ei werth a diolch am ei lafur cyn hir. Mynegodd Mr. Williams nad oedd neb yn caru fwy ar Mr. Evans nac ef a'i fod yn llefaru ar ran hen ddisgyblion. "Hanner can mlynedd yn ôl," meddai "cofiaf gerdded lan y stâr gerrig i ysgol D.E. a heddiw 'rwyf am ddiolch am bopeth a wnaeth i mi. Nid yw hanes addysg yn sir Aberteifi wedi ei ysgrifennu eto, a cheir agoriad llygad pan welir cyfraniad gwŷr fel Dafis Castell Hywel a Dafydd Evans—*Last of the Barons*. Ni wn," ychwanegodd, "p'un ai colled Cymru neu ennill Dyffryn Granell sydd fwyaf am iddo aros i wasanaethu ei fro." Chwarddodd y gynulleidfa'n galonnog pan ddywedodd T.O.W. fod Mr. Evans yn ymddangos yn dawel ond y gallai lefaru cyn huotled â Lloyd George pan fyddai'r wers heb ei gwneud. Terfynodd gyda,

"Fe ŵyr Cymru am dy ysgol
Cododd wŷr o glod
Derbyn heddiw ddiolch calon
Disgybl bach di-nod.
Athro gwerin oet mewn ardal,
Cristion yn dy fyw—
Ar dy garreg fedd y cerfir,—
'*Gŵr Bonheddig Duw*.'"

Ar hyn daeth Roderic Bowen i'r pulpud ac olion lludded yr etholiad ar ei wyneb. Addawodd i ddechrau na fyddai yn agor ei geg am fis ar ôl yr Etholiad ond i roi tamaid bach o fwyd ynddi! Mynnai yntau ymuno i dalu teyrnged i deip o ddyn a oedd yn mynd yn brin iawn yn ein gwlad. Dyma ŵr a gyfrannodd at y pethau gorau a feddwn yn y Sir. Gobeithiai fod yr Ysgolion Modern yn cyrchu at safonau ysgol D.E., gŵr a wasanaethodd un do ar ôl y llall o fechgyn a merched ardal gefn gwlad. Y cwestiwn mawr oedd a oedd ein hysgolion heddiw yn dysgu pobl i *fyw* fel efe.

A dyma'r adeg a ddewisodd Mr. E. O. Jenkins i roddi ei deyrnged yntau. "Dyma ddyn," meddai, "sydd wedi aros nid yn unig yn ei sir ond yn ei ardal am 90 mlynedd i roi gwasanaeth distaw, di-lol. Yr oedd ei bersonoliaeth yn gymaint o ddylanwad â'r pethau oedd ef wedi wneud a'u dweud. Yr oedd ardal Cribyn wedi bod yn ffodus am fod degau wedi cael cyfle addysgol yn ysgol D.E. na chaent

onibai amdani. Yr oedd perygl i rai ddweud gormod, ond nid oedd perygl i D.E. wneud hynny. Bu megis ' cannwyll yn llosgi ' ; cannwyll ydoedd, nid golau trydan llachar ; nid oedd wedi goleuo 'mhell ond goleuodd yn dda i'w gylch.

Daeth y cyn-Brifathro J. Islan Jones, M.A. i ddilyn Mr. Jenkins, a chyffesodd fod ei ddyled yn fwy nac a allai ddweud. Edrychai ar D.E. fel Esgob y Rhanbarth, gweinidog ffyddlon i Iesu Grist ac i egwyddorion yr efengyl. Mr. Evans a'i rhoddodd ef ar ben y ffordd addysgol ac yr oedd ef a'i gyd efrydwyr i gyd yn fawr eu parch iddo. Gwnaeth Mr. Evans lawer iawn dros yr achos yng Nghribyn ac ef a wnaeth yr adeilad hardd sydd yno heddiw'n bosib. Eglurodd Mr. Jones cyn cyflwyno'r dysteb ardderchog o £280 mai amcan y pwyllgor a'i trefnodd oedd ceisio sicrhau ychydig ychwaneg o gysuron bywyd iddo yn ei hen ddyddiau. "Gobeithio na fyddwch yn eu rhoi mewn rhyw hen 'facas' (hosan, i'r anghyfarwydd), ond y byddwch yn eu defnyddio!"

A dyma'r funud fawr wedi dod. Safodd yr hen wron megis Barwn yn ei bulpud a theimlais yn wylaidd iawn wrth weld ac wrth wybod na pherthynai i ni'r do ifanc ddim o urddas hwn. Y mae'n dda gennyf i'm llaw fer allu dal geiriau'r araith a draddododd —ni allai dim daearol ddal ysbryd y munudau dwys, atgofus rheiny. Dyma'r geiriau,

"Y mae fy meddwl y munudau hyn yn mynd yn ôl dros y blynyddoedd at yr adeg y dechreuais bregethu drigain a deg o flynyddoedd yn ôl. Dechreuais naill ai'n ddiweddar yng ngwanwyn neu ddechrau haf 1880 yn Rhydygwin. Da a byw iawn y cofiaf am y diwrnod ; bore braf, tesog a natur wedi gwisgo yn ei dillad gorau gan beri i mi deimlo mai braint oedd cael byw. Yr oedd yr amgylchoedd yn hynod o ddymunol eithr yr oedd y corff ymhell o fod yn ddymunol—pob modfedd ohono yn crynu, yn crynu yn aruthr. Ar derfyn y gwasanaeth fe deimlwn yn amheus a oedd pethau'n llwyddiant ynteu i'r gwrthwyneb.

Syml yw ffeithiau fy ngyrfa yn ei hallanolion, oddieithr i mi, ped ymgymrwn â'r gorchwyl, o dynnu'r llen mewn hunangofiant—medrwn ysgrifennu llyfr a ddarllenai fel chwedl. Oblegid bywyd o frwydro yn erbyn anawsterau a fu fy mywyd.

Euthum i Gaerfyrddin yn 1882 o ysgol Mr. James, Llandysul ac yn 1886 deuthum i Gribyn a bûm yma 42 o flynyddoedd. Yn 1899 ychwanegais Gapel-y-Groes at fy ngofal a bûm yn weinidog yno am 29 mlynedd. Beth a ddywedaf wrth edrych yn ôl? Profais garedigrwydd di-hafal oddi ar law'r ddeule. Yn ychwanegol at waith y weinidogaeth, cedwais ysgol am yn agos i bum mlynedd ar hugain—yr olaf gan Weinidogion Undodaidd. Aeth 12 i'r weinidogaeth ohoni, y rhan fwyaf i'r weinidogaeth Undodaidd. Llawenydd yw meddwl fy mod wedi bod o help. Am y lleill, llu mawr, cof melys a pharch didwyll iddynt—pleser dilyn eu rhawd a'u

gyrfa. Llawenychwn o glywed am bob llwyddiant. Ni pherthyn i mi sôn am fy llwyddiant na'm aflwyddiant fel gweinidog neu athro—gwneuthum gamgymeriadau ac ni wneuthum bopeth a hoffwn—fe wnes fy ngorau i fyw i fyny â'r geiriau, ' Beth bynnag yr ymafl dy law ynddo gwna â'th holl egni.'

Ni feddyliais am gyfarfod o'r fath eithr gwerthfawrogaf y teimladau a barodd i chwi wneud hyn. Diolch gwresog i bawb a gymerodd ran yn y mudiad, yn enwedig i'm cyd-weinidogion. Da meddwl fy mod yn tynnu at y terfyn a dymuniadau da yn swnio'n felys yn fy nghlustiau. Da gennyf weld yr hen ddisgyblion a chael siarad gair a siglo llaw. Gwerthfawrogaf bresenoldeb Mr. Roderic Bowen—ni ddaeth yn unig er fy mwyn i ! (Bu chwerthin mawr ar hyn a Mr. Bowen yn ymuno gystal â neb wrth weld y *wag* yn dod i'r golwg). Diolch hefyd i wragedd a merched ifainc Cribyn am wasanaethu yn ôl eu harfer. Diolch i'r Aelod Seneddol dros Benbont ar Ogwr ! Diolch iddo am wneud i bobl ddarllen Yr Ymofynnydd a rhoi gwybod i ni beth mae eraill yn feddwl amdanom. (Edrychais dros fy ysgwydd ar y Gwalch, ac yr oedd yn wên o glust i glust !). Unwaith eto, cyflwynaf fy niolchgarwch gwresocaf i bawb".

Cododd y Parch. S. E. Bowen i gynnig diolchiadau'n ddeheuig gan ddweud iddo glywed sôn am D.E. a dysgu ei barchu gyda iddo ddechrau cerdded. "Dyn yn edrych ymlaen at y mwy a'r gwell yw ef o hyd, dyn ifanc a chyfraniad mwyaf Mr. Evans yw Mr. Evans ei hunan." Cyn cael yr eilio cododd Ficer Cellan, Mr Hughes a chyn-ddisgybl i D.E. i sôn am ei atgofion melys. Dau allu cryfaf bywyd meddai, oedd athrylith dyn a gras Duw—yr oedd y ddau wedi cwrdd yn ein gwron. Yna eiliodd y Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D. a mynegodd nad oedd D.E. erioed wedi gorffen gweithio ac na fethodd gyflawni ei ddyletswydd i'r Ymofynnydd erioed.

Gŵr arall a gyflwynodd deyrnged gynnes ar ran ' Y Gymdeithas De-Ddwyrain ' a'r Hen Dŷ Cwrdd oedd Mr. D. T. Williams. Eithr pan ddechreuodd sôn am ' ddefaid duon Jacob ' syrthiodd y papur a'r pensil o'm llaw a chollais ei araith.

Ac wrth orffen yr hanes, a gaf innau ddweud wrth gynulleidfa fwy na chynulleidfa Cribyn hyd yn oed, fy mod yn cyflwyno diolchgarwch darllenwyr Yr Ymofynnydd am bopeth a ddaeth o'i law ffrwythlon. Doed eto'r gystrawen lân a'r arddull goeth, gywir. Rhodded i ni o brofiad mawr oes hir, oes a welodd lawer newid ac oes a'i cafodd yn fwy na choncwerwr yng ngrym yr Efengyl.

Ŵr diwyd yr awr dawel—yn gennad
Di-gynnwrf—yn angel.
Ba ryw sant mor bur ei sêl
I'r enwad a Duw'r anwel ?

Trem tuag yn Ol.

Gan y Parch. David Evans.

Tua hanner y mis cyntaf o'r flwyddyn newydd, daeth cerdyn i'm llaw, gyda marc y post "Aberdare" yn argraffedig ar ei wyneb, a'r cyfeiriad mewn llawysgrif y sydd yn dechreu dod yn adnabyddus imi. O droi o honof i'r ochr arall, darllenais—"Fe hoffai'r Ymofynnydd gael gair o brofiad gennych ar adeg eich pen blwydd yn 90, i'w gyhoeddi yn rhifyn Mawrth. Beth am 'neges ar ben pedwar ugain a deg?'" Wedi imi ddarllen yr uchod y tro cyntaf, daeth "diafol bach y botel inc," chwedl y Golygydd, gan daflu o hono y cwbl a fedrai o ddwfr oer ar y cais. "Mae'n hen bryd i chwi," meddai, "roddi lle i eraill iddynt gael cyfle i draethu eu llên." Ensyniai imi bob math ar ddiffygion, diogi o'u nifer. Deuai'r diogi i mewn i'r drafodaeth yn y methu o honof â dywedyd dim y sydd newydd—dywedyd yr un pethau byth a hefyd. Nid yw'r cyhuddiad o ddiogi yn dygymod â theimlad neb dynion, hyd yn oed o bydd y cyhuddiad yn haeddiannol. Yn wir, ni'm blinwyd gan y clefyd poenus hwn un adeg o'm gyrfa—ni chefais amser i'w roesawu ; ac nid dymunol i'm teimlad oedd y posibilrwydd imi syrthio i'w grafangau ; a mi megis ar ben talar fy nghŵys olaf.

Beth am dani, ynteu ? Braidd y teimlaf fy hun yn gymwys i draethu un neges i'm cyd-Undodiaid, er fy mod wedi hen basio tymor yr addewid. Ac eto, fynnwn i, er dim, siomi'r Golygydd ieuanc yn ei ymgais eiddgar i lywio ein misolyn yn ddiogel i hafan llwyddiant. Beth, ynteu, a fedraf wneuthur ? meddwn a mi yn fy mhenbleth, daeth "diafol bach y botel inc" ataf, gan sisial yn fy nghlust, "beth pe tynnech linyn mesur dros eich cyd-weinidogion—y rhai y sydd ac a fu". Hawyr bach ! Y fath greadur haerllug yw'r "hen fachgen!" Hawdd oedd deall beth oedd ym mryd yr hen walch ; felly, fe'i cilgwthiais oddiwrthyf, gan ddywedyd, gryfed ag y medrwn, "Ymaith Satan." Ac ymaith yr aeth ; ac ni'm blinwyd ganddo drachefn—am beth amser, o leiaf. Eithr ni bu ei ymyrraeth â mi yn hollol ofer. "Beth pe soniaf am yr hen weinidogion y deuthum i gyffyrddiad â hwynt," meddwn. Dyna beth a fwriadaf wneuthur, Mr. Golygydd, od yw'n dderbyniol gennych.

Perthyn wyf i'r hen genhedlaeth o weinidogion—"yr olaf o'r barwniaid," ys dywed Mr. Williams o Frondeifi ; math ar ddolen gydiol rhwng yr hen a'r newydd a fyddai gywirach ddisgrifiad o honof. Y gweinidogion o'r hen genhedlaeth y deuthum i gyffyrddiad agosaf â hwynt oedd a ganlyn—Thomas Thomas, John Davies, William Rees, Rees Jones, William James, William Eynon Davies. Ni ddaeth Gwilym Marles tu mewn i gylch fy adnabyddiaeth.

Yn y gymanfa gerddorol gyntaf yng Nghapelygroes yn 1872 y gwelais ef gyntaf—yr unig dro ; na, nid yr unig dro ; cefais gipdrem. arno o bell ychydig cyn ei farw. Yn y gymanfa yng Nghapel-y-groes, cofiaf iddo siarad ; safai ar staer y pulpud ; eithr yr oeddwn i yn rhy ieuanc i sylwi ar ddim a ddywedodd—nid oeddwn ond deuddeg oed. Gyda llaw, credaf fy mod yr unig un y sydd fyw a oedd yn y Gymanfa honno. Adeg Cwrdd Chwarter yng Nghribyn, tua'r flwyddyn 1878 (nid wyf sicr o'r dyddiad) y gwelais Gwilym yr eildro. Bu'n pregethu yn oedfa'r prynhawn ar y testun, "Ein Duw ni sydd dan ysol"—pregeth y bu cryn sôn am dani am gryn amser ar ôl hynny. Ydyw'n bosibl mai hon oedd ei bregeth olaf? Bu farw yn fuan ar ôl hynny.

Y gweinidog y deuthum i gyffyrddiad agos ag ef gyntaf oedd Thomas Thomas, gweinidog Capelygroes. Ganddo ef y'm derbyniwyd i aelodaeth, a mi ond 16 oed—wyf felly yr aelod henaf o bell ffordd o aelodau Capelygroes. Un o foneddwyr natur, ys dywedir, oedd T.T. ; perthynai iddo ryw urddas a'i gwnai'n anodd i neb fod yn rhy eofn arno na dod yn agos ato ; eithr wedi y deuid yn agos ato, cyfaill cywir ydoedd. Mawr iawn a fu fy nyled iddo. Oedd bregethwr sylweddol, o duedd i fod yn athrawiaethol. Meddai lais clir, soniarus, a gwnai ddeunydd rhagorol o hono. Deuai i lawr yn llym ar a dybiai ef yn gyfeiliornadau athrawiaethol. Gan a glywais o'i enau ef y'm gwreiddiwyd yn y ffydd Undodaidd—"y ffydd a rodded unwaith i'r saint," ys dywedai. Derbyniol iawn oedd ei negesau o'r pulpud i'r gynulleidfa luosog a ddeuai ynghyd i wrando arno. Da y cofiaf am Ddafydd Jones, o'r Castell Elwyn yn aml eilio a ddywedai gyda'i "Ho ! ho ! ho ! dyna dda, wirione i." Hoff iawn oedd Mr. Thomas o ddewis ei destunau o lythyrau Paul. Clywais Lewis Jones o'r Felinban yn ei gyfarch un tro fel hyn : " 'Nawr, Mr. Thomas, os ych chi'n mynd i godi'ch text o 'pistolau Paul ragor, fe â i i'r Eglwys. Hen ddyn ar filain oedd Paul. 'Roedd e'n dal dillad y rhai a labyddiodd Steffan." Fel y digwyddodd, testun o un o lythyrau Paul oedd y testun. Yn y man, gwelid y dagrau yn disgyn dros fochau'r hen sant—dagrau o foddhad. Mr. Thomas oedd yr unig bregethwr a fedrai dynnu dagrau i'w lygaid. Ŵyr iddo yw Mr. Williams o Rydygwin. Wn i yn y byd a fedrai Mr. Williams dynnu dagrau i'w lygaid, pe cai gyfle. Gwnai, yn o debig, oblegid eilun yr hen ŵr oedd Mr. Williams. Hen gymeriad braf ydoedd, Undodwr heb un "os" yn a gredai, gwrth-Eglwyswr penboeth. Meddai Mr. Jones o Lwyny-groes wrtho un tro, "Pam na ddewch chi i'r Eglwys weithiau, Lewis?" "Fe ddweda i wrtho chi, syr," ebai yntau ; " 'rwy'n casau'r hen silio diderfyn yna sy gyda chi." Dyna glo ar y drws. Ebai ymwelydd â Llwyngroes wrth Mr. Jones, "fe hoffwn i weld Undodwr, a siarad ag ef." "Dyma Undodwr fan hyn," ebai Mr. Jones, gan bwyntio'i fys at Lewis, a oedd yn gweithio ger llaw

iddynt : "ond gwell i chwi beidio dechreu siarad ag ef." Ie, peth peryglus oedd "taclo" Undodwr bryd hynny. Fedr Undodiaid ein dydd ni, tybed, nid yn unig amddiffyn a gredir ganddynt, eithr *gwybod yn gywir, beth a gredant* !

Wrth gychwyn ysgrifennu, bwriadwn sôn am bob un o'r gweinidogion eraill a enwyd ; eithr rhag i "ddiafol bach y botel inc" ddod ataf, gan roddi ei law ar fy ysgwydd, a sisial "dyna hen ddigon," gwell yw imi ochelyd rhoddi cyfle iddo.

Priodasau.

Rhagfyr 10fed, yng Nghapel Gellionnen, RONALD GEORGE, mab Mr. a Mrs. E. George, Glamorgan Villa, Llwynypia a MINA IRENE DAVIES, merch ieuengaf Mr. a Mrs. D. T. Davies, Gobeithfa, Trebanos. Gweinyddwyd gan ei gweinidog y Parch. R. Islwyn Pritchard a chynorthwywyd gan y cyn-weinidog, y Prifathro J. D. Jones.

Rhagfyr 17, yng Nghapel y Graig, Trebanos, THOMAS JENKINS, mab Mr. a Mrs. William Jenkins a RITA LLOYD WILLIAMS, merch Mr. a Mrs. George Williams. Gweinyddwyd gan y Parchedig R. Islwyn Pritchard.

Yng Nghapel Caeronnen ar Ionor 31, gan y Gweinidog, unwyd mewn glân briodas JOYCE, merch Mr. a Mrs. Jones, Lanlas-fach, Cellan a GWESSYN WILLIAMS o Dŷ'r Capel, Caeronnen. Dedwydd a hir a fo'u bywyd.

Ionor 28ain, 1950, yng Nghapel y Bedyddwyr, Tŷ Ddewi, Penfro gan y gweinidog, y Parch. Dulais Jones, y Parch. S. E. Bowen a'r Parch. T. O. Williams, M.A., ewythr y priodfab, unwyd mewn glân briodas VIOLET, merch ieuaf Mr. a Mrs. Richards, Grove Hotel, Tyddewi a RONNIE DAVIES mab ieuaf Mr. a Mrs. David Davies, Esgerlygoer, Cwrtnewydd, yn awr o'r Midland Bank, Aberteifi. ' Oes hir iddynt a oes o haf.'

Marwgofion.

Ionawr 20, yn ddirybudd, bu farw EVAN SAMUEL DAVIES, 231, Swansea Road, Trebanos, yn 80 mlwydd oed. Hanoedd o deulu Penbanc sydd a'i hanes yng nghlwm wrth yr achos yng Ngellionnen, ac yr oedd yntau yn un o ymddiriedolwyr Gellionnen a'r Graig. Cynrychiolai ef yr hen deip o lowr Cymreig ar ei orau. Carai lenyddiaeth a cherddoriaeth ei genedl, ac yr oedd ugeiniau o hen gerddi a baledi Cwm Tawe ar ei gof. Yr oedd yn hyddysg anghyffredin yn ei Feibl. Er bod rhyw swildod naturiol yn perthyn iddo, yr oedd yn gwmnïwr di-ail. Y mae ein cydymdeimlad dwys gyda'r teulu yn eu hiraeth. Claddwyd y Llun dilynol ym mynwent Coed Gwilym, y Parchedig R. Islwyn Pritchard yn gwasanaethu.

IONOR 24, VINCENT, baban Mr. a Mrs. David Tom Jones, Brynfa, Llanfihangel-ar-Arth yn ddwy wythnos oed. Claddwyd y Mercher dilynol ym mynwent Pantdefaid a gwasanaethwyd gan E. O. Jenkins. Cydymdeimlir yn fawr â'r rhieni ieuanc.

IONOR 28, 1950 yn 87 mlwydd oed, wedi bod yn wael yn hir, bu farw EVAN EVANS, Tynewydd, Ffynnonfair, ond cyn hynny o'r Gwastod, ym Mharcyrhos. Hen ŵr tawel ydoedd ac wedi byw yn yr un ardal drwy gydol ei oes. Aelod ydoedd o Gaersalem, Parcyrhos a chladdwyd ef ym medd ei briod ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan ei weinidog, y Parch. Ellis Jones gyda chynorthwy parod y Parch. T. O. Williams, M.A., Brondeifi. Gadawodd blant a llawer o hen ffrindiau i alaru am un a welodd ragor na dyddiau'r addewid.

CHWEFROR 1, yn Melrose Villa, Graig Road, Trebanos, bu farw Mrs. MARY JANE DANIEL, gweddw'r diweddar David Evan Daniel, yn 65 mlwydd oed. Gwraig dawel, parod ei chymwynas ydoedd, ond â chryn ddireidi a llawenydd yn nodweddu ei chymeriad. Daeth y diwedd yn ddisymwth ac annisgwyl, ac erys ein cydymdeimlad dwfn gyda'r ferch a'r meibion yn eu colled. Claddwyd hi y Sadwrn dilynol ym mynwent Coed Gwilym, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion J. Lundy Richards, Ficer Pont ar Dawe, ac R. Islwyn Pritchard.

Nodion yr Eglwysi.

GWALCH OGWR.—Gwyliwch rifyn Ebrill—yr oedd y 'Gwalch' yn y Cyrddau Dathlu hefyd. Bu'n barcutana yn yr ardal!

RHIFYNAU'R DYFODOL.—"Pan oeddwn fachgen"—Yr Athro W. J. Gruffydd, A.S.; "Taith i'r Eidal"—Miss A. Howells. Eto "Rhifyn yr Undodwr" yn cynnwys ysgrifau ar bynciau crefyddol gan Undodiaid blaenllaw. Sicrhewch gopi drwy ordro'n gyson.

ARHOLIAD YR YSGOLION SUL.—Cynhelir Arholiad yr Ysgolion Sul ar Ddydd Sul, Ebrill 2, 1950. Gofynnir i bob Ysgol Sul anfon nifer yr ymgeiswyr (Llafar neu Ysgrifenedig) ymhob Safon i ysgrifennydd Cymdeithas yr Ysgolion Sul erbyn Mawrth 14, 1950 neu cyn hynny. Carwn bwysleisio na ellir ystyried ceisiadau ar ôl Mawrth 14, 1950. Gofynnir hefyd i bob arholwr anfon gwaith ysgrifenedig yr ymgeiswyr ar ddydd yr Arholiad i ysgrifennydd y Gymdeithas, ac enw yr ysgol Sul ar yr amlen. Cofier amgau enwau'r ymgeiswyr (Llafar ac Ysgrifenedig). Carwn hefyd wneud apêl eleni am gael y papurau yn ôl yn brydlon fel y gallom gael yr adroddiad allan mewn pryd er mwyn y plant. Diolchaf yn gynnes i chwi ymlaen llaw am bob cydweithrediad yn y mater hwn ac i bawb a fu'n gyfrwng i hyrwyddo'r gwaith da.—S. A. EVANS, *Ysgrifennydd y Gymdeithas*), Dedwyddfa, New Rd., Llandysul.

LLONGYFARCHIADAU.—Da yw croniclo llwyddiant pob aelod. Llongyfarchwn Miss Bessie Davies, Deganwy, Cwmanne, Llanbedr ar ei phenodi yn Matron Cartrefi'r Plant ym Mhenybont ar Ogwr. Dymunwn iddi bob llwyddiant yn ei swydd newydd.

MYFYRIWR ARALL ETO.—Wedi'r hir hesbedd dyma fyfyriwr arall eto i'r maes ym mherson Mr. Roy John, M.A., athro ifanc yn ysgol Sir Aberpennar ac aelod bellach o Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon. Y mae Mr. John yn Gymro pybyr ac fe edrychwn ymlaen at wrando arno yn ein pulpudau drwy Gymru. Croeso cynnes iawn. Cofied yr eglwysi bod arnynt ddyletswydd i gadw'r bechgyn yma yn anrhydeddus. Dybler casgliad y myfyrwyr eto—mae angen. "Os yw *Centre Forward* yn werth £25,000 i'r Arsenal, faint yw gwerth myfyriwr newydd i'r Undodiaid".—*D. T. Williams.*

CRONFA'R MYFYRWYR.—Carwn ddiolch yn gynnes i aelodau ein eglwysi am y cymorth sylweddol roddwyd y llynedd er cynnal ac addysgu ein myfyrwyr Undodaidd yng Ngholeg Caerfyrddin. Treblwyd cyfraniadau y flwyddyn flaenorol a chasglwyd ym mhob un o'r eglwysi gydag eithriad o dair yn sir Aberteifi, a 4 ym Morgannwg (yr olaf, ran fwyaf yn eglwysi gweinion iawn). Dengys hyn beth ellir ei wneud gydag ymdrech ag ewyllys da. Dim ond cadw ati fe lenwir ein pulpudau gweigion cyn bo hir gan fechgyn ieuainc athrylithgar a chydwybodol. Mae dau ohonynt yn awr yn y Coleg, ac un arall o Aberdâr sydd yn barod wedi graddio yng Nghaergrawnt, wedi ei dderbyn gan Bwyllgor y Myfyrwyr. Felly bydd yr alwad ariannol o Hydref ymlaen yn £300 y flwyddyn. Dyna darged fwy na osodwyd i ni o'r blaen yng Nghymru, a bu'r Pwyllgor yn petruso a ellid cyfarfod y gost ychwanegol. Ond ni feiddient wrthod ymgeisydd mor gymwys pan yw pump o'n pulpudau yn wag. Ateb ein heglwysi i'r sialens a gyfiawnha y Pwyllgor ac y mae hyn yn dibynnu ar bob un ohonoch chwi ddarllenwyr. Dyma'r cyfanswm o bob eglwys y llynedd (yn gasgliad a thanysgrifiadau) : Aberdâr (H.D.C.), £3/2/0; Highland Place (Tŷ Cwrdd y Graig), £4/7/0 ; Aberystwyth, £8/17/6 ; Alltyplaca, £1/4/6 ; Brondeifi, 10/- ; (D. Jones : Dim Casgliad); Bwlch, £1/10; Caerdydd, £23/3/0 (tri); Caerfyrddin, £4/1/0 ; Capel-y-Bryn, £5/3/6 ; Capel-y-Groes, £3/18/0 ; Cefn Coed, £6/17/6 ; Ciliau, £4/5/0 ; Cribyn, £5/19/0 ; Cwmbach, £5 (Trustees); Trebanos, £10/19/0 ; Llwyn, £4/1/0; Graig, Llandysul, £6/1/6 ; Notais, £3/10/0 ; Pantydefaid, £3/16/0 ; Penardd, £9/10/0 ; Pontypridd, £9/13/6 ; Panteg, £1 (Misses James) ; Rhydygwin, £2/14/0 ; Abertawe, £7/16/0 ; Cymru Llundain, £4/5/0 (er eu clod ond yn rhy hwyr i ymddangos yng nghyfrifon 1948-9). Ardderchog—er "nid da lle gellir gwell", ond os gwnaiff pawb eu gorau nid oes achos achwyn. Yn awr mae'n amser gwneud yr ymdrech eto am y flwyddyn hon ; da chwi, gwnewch cystal os nad gwell, a pheidiwch oedi gan taw yn ystod tymor y coleg y mae eisiau'r arian ac nid pan yw drosodd. Felly gyfeillion, ewch ati a danfonwch gynted a bo modd i'r Trysorydd, Simon Jones, Celfan, Southgate, Abertawe.

MEDAL D. T. WILLIAMS I'R DOSBARTHWYR.—Miss E. H. Evans, 'Y Gloch Las,' Cwrtnewydd sydd wedi cael y nifer mwyaf o ddarllenwyr newydd o'r rhai a'm hysbysodd yn ôl cais rhifyn Chwefror. Y mae Capel-y-Bryn bellach yn gydradd a Brondeifi a Threbanos sy'n dosbarthu 41 yr un. Clod iddynt ! Mynned pawb wybod faint a ddosberthir yn ei gapel.

CAPEL-Y-BRYN.—Dydd Gwener, Ionawr 6, cawd gwledd flynyddol yr Ysgol Sul. Fel arfer, aelodau Urdd y Benywod a'i trefnodd ac fel arfer hefyd yr oedd eu gwaith ymhob cyfeiriad o'r radd orau. Yr oedd eu gwahoddiad i drigolion y pentre i gyd o bob enwad, ac i bob golwg 'doedd gan neb esgus i fod yn absennol. Cadeiriwyd y cyngerdd gan y Parch. S. E. Bowen, a'r arweinydd medrus oedd Mr. D. Lewis, B.A., Tŷ'r Ysgol. Yr oedd ôl llafur ar waith y plant, caneuon melys ac adroddiadau gwerth eu cofio. Yn ddi-rybudd daeth *Father Christmas* ym mherson Mr. William Evans, Crosshands i'r canol a chafodd y "Goeden Nadolig" ei phriod sylw. Anrhegwyd hefyd ffyddloniaid yr Ysgol Sul, a da oedd sylwi fod y *Perlau Moliant* yn cael lle amlwg yn yr anrhegu.

EGLWYS GELLIONNEN A'R GRAIG, TREBANOS.—Dydd, Sadwrn, Tachwedd 12, cynhaliwyd y Bazaar Flynyddol yng Nghapel y Graig o dan nawdd Urdd y Chwiorydd. Agorwyd y gweithrediadau gan Mrs. Gildas Morgan, Godre'r-graig, sydd yn disgyn o un o'r teuluoedd oedd yn arloeswyr yr achos Undodaidd yn y cylch. 'Roedd y derbyniadau dros £160, ac y mae dyled yr eglwys yn drwm i'r chwiorydd am eu llafur.—Bu Sul y Nadolig yn Sul arbennig yng Nghapel y Graig, cynhaliwyd Gwasanaeth y Pylgain am 7.30 y bore ; gwasanaeth y plant am 10.30 ; gwasanaeth y bobol ieuainc am 2.30, a gwasanaeth arbennig am 6. Wedi'r rhan ddefosiynol cafwyd detholiad o'r 'Messiah,' pedair unawd gan Mrs. Olwen James a Mr. Arthur Gwyn Davies, a chorganau gan gôr y Capel o dan arweiniad Mr. H. H. Morgan, a Mr. Isaac Hopkin yn cyfeilio ar yr organ. Cafwyd adroddiad gan Mrs. Morgan T. Davies.

RHODD.—Ar brynhawn Sul, Ionawr 8, yng Nghapel Brondeifi, daeth yr aelodau yn gryno at ei gilydd, ac yr oedd yn gwrdd arbennig—cwrdd cyflwyno rhodd i Miss Nancy Lee Williams, S.R.N., merch y gweinidog a Mrs. Williams ar achlysur o'i phriodas. Pan fo Brondeifi yn mynd ati o ddifrif y mae yn gwneud yn anrhydeddus ond rhagorodd arni hi ei hun y tro hwn oherwydd casglodd £40. Ar y prynhawn Sul hwn cyflwynodd Mrs. Rees, Rhosycoed, Treherbert, un o aelodau hynaf Brondeifi a chwaer i'r diweddar Barch. Hathren Davies, glock prydferth dros ben (a phob ergyd y mae'n daro yn ein hadgofio o Westminster) a siec. Siaradwyd dros yr eglwys gan yr ysgrifennydd, Mr. Terwyn Davies, dros yr ysgol Sul gan Miss Lena Hughes a thros Urdd y Benywod gan Mrs. Jones, Maesyrhaf. Talodd Nancy ddiolch gwresocaf ei chalon i Miss Jones, Frowen, Miss Jones, Brynmanalog, Miss Nellie Jones, Llwynonn a Miss Lena Hughes, Brynafon am gasglu, i bawb am eu geiriau caredig a'u dymuniadau da gan ddweyd na wyddai neb anwyled oedd Brondeifi yn ei chalon. Mynegodd y gweinidog ei ddiolch i bawb gan awgrymu wrth yr aelodau pe cai ddoe yn ôl a hwythau yn penderfynu risko eilwaith i roi galwad iddo y buasai yn sicr o'i derbyn.

LLANMADOG.—Gwyliau Haf Dedwydd gyda Undodiaid! Y mae'r Parch. J. Marles Thomas, Cefn Coed yn barod i dderbyn enwau pawb a ddymuno ymuno yng ngwyliau a chynhadledd Llanmadog, Gorffennaf 22—29. Y tâl yw £2/5/0 (*all found*) a rhaid rhoi coron o ern gyda'r enw, Bydd yno siaradwyr enwog yn arwain trafodaethau, bwyd da a lle diddos. cysurus dan do.

LLWYDDIANT.—Da bob amser yw croniclo llwyddiant aelodau, a'r tro hwn yr wyf yn gwneud yn driphlyg. Llongyfarchwn Mrs. Olive Williams, Brynafon, Llanbedr ar basio ohoni yr arholiad diwethaf i fod yn Domestic Science Teacher. Y mae yn byw ym Mryste ac wedi dilyn y cwrs yn ystod oriau hamdden ac wedi llwyddo i ennill ei thystysgrif. Llongyfarchiadau calonnog iddi ar ei llwyddiant. Hefyd i Miss Nellie Jones, Llwynonn, New Street, Llanbedr ar lwyddo ohoni i basio arholiad y Civil Service yn y radd o Clerical Officer, yr unig ferch yn sir Aberteifi i fod yn llwyddiannus. Y mae ei llu cyfeillion ym Mrondeifi a thrwy'r sir yn falch o'r newydd da.—Nid teg anwybyddu un aelod nad beth yw'r berthynas rhyngom. Y mae llu o'i chyfeillion yn falch o lwyddiant "Nanna", neu Miss Nanna Williams, Brynllewelyn, Llanbedr. Ychydig flynyddoedd yn ôl graddiodd yn B. Pharm. ym Mhrifysgol Cymru a rhyw ddeuddeg mis yn ôl enillodd Ph.C. y Pharmaceutical Society yn Llundain. Yr oedd wedi bod yn Gemist yn Ysbyty Morriston ac yn Siop Boots, The Chemists, Fforestfach. Ychydig amser cyn y Nadolig cynhigiwyd iddi swydd ym Mhrif Swyddfa Boots yn Nottingham yn yr Apprentice Training Department i addysgu eraill yn y grefft. Dymuna pawb yma iechyd a llwyddiant iddi yn ei gwaith newydd.

Bu raid gohirio Cywydd gan Cledlyn a Nodion Rhydygwin.—GOL.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU
[SEFYDLWYD 1802]

Cynhelir

CYRDDAU CHWARTER Y GYMDEITHAS

Yng Nghapel y Graig, Trebanos

Dyddiau Mercher ac Iau, Ebrill 26 a 27, 1950

Nos Fercher am 7—Pregethir gan y Prifathro J. D. JONES, B.A., B.D.

Prynhawn Iau am 1.30—PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.

Prynhawn Iau am 2.30—Pregethir gan y Parchedig LEWIS WILLIAMS.

Nos Iau am 6—Pregethir gan y Parchedigion S. E. BOWEN ac E. O. JENKINS.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.